# Cylchlythyr YGG Llwynderw/*YGG Llwynderw Newsletter*

## 21.07.2023

| | |
|---|---|
| Patrwm yr wythnos/<br>*Pattern of the week* | Ble'r wyt ti'n mynd yn y gwyliau?<br>Dwi'n mynd i ________<br>Byddaf yn mynd i ______ |
| Idiom yr wythnos /<br>*Idiom of the week* | Crynu yn ei sgidiau.<br>*Shaking in his boots* |
| Testun trafod yr wythnos<br>*Discussion topic of the week* | Beth yw eich breuddwydion?<br>*What are your dreams?* |
| Artist Cerddorol y Mis/ *Musician of the month*<br>Bardd y mis/ *Poet of the month* | Ows Gwynedd<br><br>Twm Morys |

Hawl y mis/ *Right of the month*

I ymlacio a chwarae/ *To relax and play*



**Wefan yr ysgol/ *School website:*   yggllwynderw.co.uk**

**E-bost yr ysgol/ *School e-mail:* 6702235_yggllwynderw@hwbcymru.net**

**https://open.spotify.com/playlist/0DBrJviYAO0IMtj4TdTljG**

**https://www.yggllwynderw.co.uk/siarter-iaith-welsh-charter/**

**% Presenoldeb/ *Attendance* %**

Ers Medi 22/ *Since September 22*: **93.4%**

Ein targed/ *Our target:* **97.5%**

**Cofiwch i glirio unrhyw falansau sy'n weddill ar sQuid** a chanslo taliadau atodol awtomatig. Gallwch e-bostio customerservice@squidcard.com gydag unrhyw ymholiad. Yn anffodus, nid ydym wedi cael y manylion cofrestru newydd gan iPay felly mae'n bwysig eich bod yn dilyn y ddolen https://www.yggllwynderw.co.uk/stream/newsletters/full/1/-// am newyddion a dyddiadau ar ôl gwyliau'r haf

*Remember to clear any outstanding balances on* **sQuid** *and cancel automatic top-ups. Please e-mail customerservice@squidcard.com if you **need any assistance. Unfortunately, we haven't been given the new registration details from iPay therefore it's important that** you follow the link https://www.yggllwynderw.co.uk/stream/newsletters/full/1/-// for news and dates after the summer holiday*

Unwaith eto, rydym wedi cyrraedd diwedd blwyddyn ysgol brysur a chyffrous arall! Cyn i ni orffen am yr haf hoffwn rannu gyda chi...

* Yn anffodus, rydym yn ffarwelio â dau aelod o staff; Mr Gethin Horan a Miss Sioned Rees. Mae'r ddau yn dechrau swyddi newydd ym mis Medi felly dymunwn bob lwc iddynt i'r dyfodol a diolch iddynt am eu hymroddiad a'u cyfraniadau gwerthfawr dros y blynyddoedd diwethaf. Hoffem hefyd ddweud 'Pob Lwc' enfawr i holl ddisgyblion blwyddyn 6 sy'n ein gadael i ddechrau yn eu hysgolion cyfun ym mis Medi. Pob lwc i chi ar gam nesaf eich taith!

* Edrychwn ymlaen at groesawu dau aelod newydd o staff dysgu ym mis Medi, sef Mrs Lucy Diamond a Mr Matthew Hughes, ac rydym yn sicr y byddant yn ymgartrefu'n dda yn eu dosbarthiadau newydd.

* Diolch i bawb a ddaeth i Gyfarfod Blynyddol y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon ddydd Gwener diwethaf. Roedd yn nifer dda iawn ac rydym yn falch o gyhoeddi bod gennym bwyllgor newydd sbon yn barod ar gyfer gweithgareddau codi arian y flwyddyn nesaf. Diolch hefyd i'r aelodau blaenorol am eu gwaith caled dros y blynyddoedd ddiwethaf; rydym yn gwerthfawrogi popeth rydych chi wedi'i wneud er lles y plant a'r ysgol.

* Er gwybodaeth, dyma neges gan yr Awdurdod Lleol..." rydym yn falch o gyhoeddi y byddwn yn cyflwyno prydau ysgol am ddim i holl ddisgyblion blwyddyn 3 (disgyblion blwyddyn 2 presennol) 1 Medi 2023. Sylwch y bydd hyn yn digwydd yn awtomatig ac ni fydd angen gwneud cais am y prydau. Ein nod yw ehangu i grwpiau blwyddyn pellach cyn gynted â phosibl a byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am ein cynnydd maes o law."

Dymunwn haf braf a hapus i chi gyd ac edrychwn ymlaen at groesawu pawb yn ôl i'r ysgol ar ddydd Llun, Medi 4ydd!!

*We have, once again, reached the end of another busy and eventful school year! Before we finish for the summer I would like to share with you...*

* *We are sadly saying goodbye to two members of staff; Mr Gethin Horan and Miss Sioned Rees. They are both starting new posts in September so we wish them all the very best of luck for the future and thank them for their dedication and valuable contributions over the past few years. We would also like to say a huge 'Pob Lwc' to all year 6 pupils who are leaving us to start in their comprehensive schools in September. Good luck to you in the next stage of your journey!*

* *We look forward to welcoming two new teachers in September, Mrs Lucy Diamond and Mr Matthew Hughes, and we're sure they will settle well in their new classes.*

* *Thank you to everyone who came to the PTA AGM last Friday. It was a very good turnout and we are happy to announce that we now have a brand new committee ready for next year's fundraising and activities. Thank you also to the previous members for their hard work over the past few years; we appreciate everything you have done for the sake of the children and the school.*

* *For your information, here is a message from the Local Authority...."we are pleased to announce we will be rolling out free school meals to all year 3 pupils (current year 2 pupils) 1 September 2023. Please note this will be automatic and there will be no requirement to apply for the meals. We aim to roll out to further year groups as soon as possible and will update you on our progress in due course."*

*We wish you all a restful and happy summer and we look forward to welcoming everyone back into school on Monday, September 4th!!*